



At: Gadeirydd ac Aelodau'r Pwyllgor
Safonau

Dyddiad: 15 Ionawr 2015

Rhif Union: 01824 706204

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.com

Annwyl Aelod o'r Pwyllgor,

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **PWYLLGOR SAFONAU, DYDD GWENER, 23 IONAWR 2015** am **10.00 am** yn **YSTAFELL BWYLLGORA 1A, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams
Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democraidaidd

AGENDA

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIADAU O FUDDIANT

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

- 4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF** (Tudalennau 5 - 10)
Derbyn cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 18 Gorffennaf 2014 (copi'n amgaeedig).
- 5 RHAGLEN WAITH I'R DYFODOL AC ADOLYGIAD** (Tudalennau 11 - 12)
Ystyried adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro (copi ynghlwm) ar gyfer aelodau o'r Pwyllgor i ddadlau ac ystyried mabwysiadu Rhaglen Waith i'r Dyfodol.
- 6 ADRODDIAD BLYNYDDOL Y CADEIRYDD** (Tudalennau 13 - 16)
I ystyried adroddiad gan y Dirprwy Swyddog Monitro (copi ynghlwm) sy'n galluogi'r Pwyllgor i gael golwg ac i gyfrannu at Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd, cyn i'r eitem gael ei gyflwyno i'r Cyngor llawn.
- 7 OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU – PRAWF BUDD Y CYHOEDD** (Tudalennau 17 - 24)
I ystyried adroddiad gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) ar gynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru i gyflwyno Prawf Budd y Cyhoedd newydd wrth ystyried a ddylid ymchwilio i honiadau bod Aelod Etholedig wedi torri'r Cod Ymddygiad.
- 8 FFORWM PWYLLGORAU SAFONAU GOGLEDD CYMRU** (Tudalennau 25 - 34)
I ystyried adroddiad (mae copi ynghlwm) gan y Swyddog Monitro ar gyfarfod Fforwm Pwyllgorau Safonau Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2014.
- 9 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD**
Nodi presenoldeb aelodau'r Pwyllgor Safonau yng nghyfarfodydd Cyngorau Sir, Tref a Chymuned a derbyn eu hadroddiadau.
- 10 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF**
Mae cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi'i drefnu ar gyfer 6 Mawrth 2015.

RHAN 2: MATERION CYFRINACHOL

Argymhellir, yn unol ag Adran 100A (4) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod trafod y mater canlynol oherwydd y tebygolrwydd y caiff gwybodaeth eithriedig, fel y diffinnir ym Mharagraff "12 ac 13" Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf, ei datgelu.

11 COD YMDDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000 (Tudalennau 35 - 36)

Ystyried adroddiad cyfrinachol gan y Swyddog Monitro (copi ynghlwm) a oedd yn rhoi trosolwg o gwynion a gyflwynwyd gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn erbyn aelodau.

AELODAETH

Aelodau Annibynnol:

Y Parch. Wayne Roberts, Ian Trigger (Cadeirydd) a/ac Mrs Paula White

Aelod Cyngor Tref/Cymuned:

Y Cyngorydd David E Jones

Cynghorwyr Sir:

Y Cyngorydd Bill Cowie

COPIAU I'R:

Holl Gynghorwyr er gwybodaeth

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd

Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

PWYLLGOR SAFONAU

Cofnodion cyfarfod o'r Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd yn Ystafell Bwyllgora 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Gwener, 18 Gorffennaf 2014 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Aelodau Annibynnol Ms. Margaret Medley, Mr. Ian Trigger (Cadeirydd), Mrs. Paula White
Cynghorydd Cymuned David Jones a'r Cynghorydd Sir Bill Cowie.

HEFYD YN BRESENNOL

Dirprwy Swyddog Monitro (LJ) a Gweinyddwr Pwyllgorau (SLW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Roberts
a/ac Colin Hughes

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni chafwyd unrhyw ddatganiad cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu.

3 MATERION BRYD FEL Y CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF

Cyflwynwyd cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ddydd Gwener 9 Mai 2014.

PENDERFYNWYD derbyn cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 9 Mai 2014 a'u
cymeradwyo fel cofnod cywir.

Ar y pwynt hwn, gofynnodd Mrs Paula White am fyddai'n bosibl anfon papurau'r Pwyllgor
Safonau at yr Aelodau 7 diwrnod gwaith cyn dyddiad y cyfarfod er mwyn rhoi digon o
amser iddynt edrych ar y papurau. Cytunodd yr Aelodau i'r cais hwn.

Cytunodd y Dirprwy Swyddog Monitro i gyflwyno'r cais gerbron Rheolwr y Gwasanaethau
Democrataidd.

5 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL AC ADOLYGIAD.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro (DSM) adroddiad (a ddisbarthwyd eisoes)
yn cyflwyno'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol ac Adolygiad i'w hystyried a'i mabwysiadu.

Eglurodd y DSM pam y lluniwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol. Roedd mwyafrif Pwyllgorau'r Cyngor yn defnyddio Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Roedd aelodau'r Pwyllgor yn rhagweithiol, ac yn mynychu cyfarfodydd ar lefel Sir, Dinas, Tref a Chymuned. Ar ôl iddynt fod yn bresennol yn y cyfarfodydd, caiff adborth yr aelodau ei gyflwyno yng nghyfarfodydd y Pwyllgor Safonau.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys rhestr o feysydd gwaith dangosol i'w trafod gan y Pwyllgor er mwyn penderfynu a fyddent yn cael eu mabwysiadu o fewn y Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

Cafwyd trafodaeth fanwl iawn a chodwyd y pwyntiau a ganlyn:

- Rhoi hyfforddiant i aelodau ar y Cod Ymddygiad.
 - Hyfforddiant wyneb-yn-wyneb gan y Swyddog Monitro (SM) a'r DSM. Byddai'n anodd cynnig yr hyfforddiant ar hyd y flwyddyn. Awgrymodd yr aelodau y gellid cynhyrchu CD hyfforddiant yn ymwneud â phresenoldeb mewn cyfarfodydd cynghorau Dinas, Tref a Chymuned ac ymhelaethu ar hyn gyda'r aelodau.
 - E-ddysgu – roedd hyfforddiant ar y cod ymddygiad wedi ei ffilmio. Roedd yn bosibl y gellid golygu a chopio'r ffilm er mwyn i'r Clercod ei dosbarthu ymhlith aelodau.
 - Hyfforddi Clercod – byddai'r hyfforddiant yn cael ei gyflwyno gan y SM a'r DSM. Yna, byddai'r Clercod mewn sefyllfa i hyfforddi eu haelodau. Cytunodd yr aelodau y gellid cynnal sesiynau hyfforddiant penodol i Clercod yn Neuadd y Sir, Rhuthun.
 - Hyfforddiant a gydlynwyd trwy Bwyllgor Safonau Gogledd Cymru ar gyfer Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned. Gellid cyflenwi'r hyfforddiant a rhannu'r costau.
- Codi ymwybyddiaeth o'r Cod.
 - Cadarnhaodd y DSM y gellid codi ymwybyddiaeth o'r Pwyllgor Safonau a'r Cod mewn llythyr ynghyd â CD amgaeëdig. Byddai Clerc y Cyngor Dinas, Tref, Cymuned yn derbyn rhybudd ymlaen llaw o gais gan Aelod o'r Pwyllgor Safonau i fynychu cyfarfod i godi ymwybyddiaeth o'r Pwyllgor, ac i gynnwys hyfforddiant. Awgrymodd Ms Margaret Medley y dylid cynnwys slip dychwelyd ar waelod y llythyr er mwyn i'r Clerc gydnabod ei fod wedi derbyn y llythyr a'r CD . Cytunwyd y byddai llythyr drafft ynghyd â CD sampl yn cael eu cyflwyno yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau. Hefyd, cytunwyd y dylid anfon y Cod Ymddygiad i bob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned yn electronig. Byddai'r Clercod yn cael cais i argraffu copïau a'u dosbarthu ymhlith yr aelodau.
- Adroddiad y Pwyllgor Safonau o'r Gadair i bob Cyngor Dinas, Tref a Chymuned mewn perthynas ag astudiaethau achos Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru.
 - Cytunwyd i gynnwys copi o'r llyfr achosion a luniwyd gan yr Ombwdsmon ynghyd â'r llythyr gan y Cadeirydd.
- Adolygu Cylch Gorchwyl y Pwyllgor Safonau.

- Cafwyd argymhelliad i gysylltu â'r Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol i ofyn am farn yr aelodau ynglŷn â'r awgrym i'r Pwyllgor Safonau fynd i'r afael â mwy o faterion a oedd yn cael eu trafod gan eu Pwyllgor hwy ar hyn o bryd.
- Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn.
 - Cytunwyd y dylai Cadeirydd y Pwyllgor Safonau gyflwyno Adroddiad Blynyddol i'r Cyngor Llawn yng nghyfarfod mis Medi neu fis Hydref.
- Monitro Cwynion ar draws y Sir ar lefel Cymuned a Sir.
 - Ar hyn o bryd roedd hyn yn eitem sefydlog ar Agenda'r Pwyllgor Safonau a chytunodd yr holl aelodau y dylid parhau i gynnwys yr eitem hon.
- Presenoldeb mewn cyfarfodydd.
 - Byddai rhestr wirio o'r holl Gynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn cael ei llunio yng nghyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau er mwyn galluogi aelodau'r Pwyllgor Safonau i nodi ymlaen llaw pa gyfarfodydd y byddai'n well ganddynt eu mynychu.
- Hyfforddiant Cod Gorfodol.
 - Roedd hyn eisoes wedi'i fabwysiadu ar lefel sir o fewn Cod a Chyfansoddiad y Cyngor. Cytunwyd na fyddai hyfforddiant ar gyfer aelodau Cynghorau Dinas, Tref a Chymuned yn orfodol oherwydd y posibilrwydd y gallai hyn gadw rhai aelodau draw ac achosi problem o ran denu pobl i ddod yn Gynghorwyr Dinas, Tref a Chymuned.
- Hyrwyddo gwaith y Pwyllgor Safonau yn gyhoeddus.
 - Byddai cyflwyno adroddiad gerbron y Cyngor Llawn yn codi ymwybyddiaeth ac yn hyrwyddo'r Pwyllgor Safonau.
- Defnydd o'r Cyfryngau Cymdeithasol.
 - Mae'r SM yn gwneud gwaith yn y maes hwn ar hyn o bryd. Byddai'r eitem hon yn cael ei hychwanegu i'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol i'w thrafod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

Cytunwyd y dylai'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol fod yn eitem sefydlog ar Agenda holl gyfarfodydd y Pwyllgor Safonau yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD yn amodol ar farn a sylwadau'r Aelodau a nodwyd uchod, y dylid mabwysiadu'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol gan y Pwyllgor Safonau.

6 ADRODDIAD BLYNYDDOL OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2013/2014.

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro (DMO) adroddiad (a ddosbarthwyd eisoes) yn rhoi gwybod i'r aelodau am Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru ar gyfer y flwyddyn 2013/14. Roedd Adroddiad yr Ombwdsmon wedi'i gynnwys fel atodiad.

Roedd yr Ombwdsmon blaenorol, Mr Peter Tyndall, wedi symud i swydd newydd fel Ombwdsmon a Chomisiynydd Gwybodaeth Gweriniaeth Iwerddon. Penodir yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus gan y Goron yn dilyn enwebiad gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae Nick Bennett, Prif Weithredwr Tai Cymunedol Cymru ar hyn o bryd, wedi'i enwebu gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru fel yr

Ombwdsmon nesaf. Ar adeg ysgrifennu Adroddiad Blynyddol yr Ombwdsmon roedd disgwyl am gymeradwyaeth y Goron i benodiad Mr Bennett.

Cafodd yr Adroddiad ei baratoi gan yr Ombwdsmon Gweithredol, Margaret Griffiths, a oedd wedi ymgymryd â'r rôl ym mis Rhagfyr 2013. Byddai'r Ombwdsmon Gweithredol yn aros yn ei swydd hyd nes y byddai'r Ombwdsmon newydd yn gallu dechrau ar ei waith.

Tynnwyd sylw'r Aelodau at y pwyntiau a ganlyn:

- Roedd nifer y cwynion a dderbyniwyd mewn perthynas â thorri amodau honedig y Cod Ymddygiad wedi gostwng 22% o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol. O'r 228 cwyn a dderbyniwyd, roedd 115 yn ymwneud â Chynghorau Dinas, Tref neu Gymuned, 111 yn ymwneud ag Awdurdodau Unedol a 2 yn ymwneud ag Awdurdodau Tân. Ni dderbyniwyd cwynion yn ymwneud ag Awdurdodau'r Parciau Cenedlaethol.
- Roedd mwyafrif y cwynion a dderbyniwyd yn ystod 2013/14 yn ymwneud â materion "cydraddoldeb a pharch" ac yn cyfrif am 36% o'r holl gwynion a dderbyniwyd. Roedd hyn yn cymharu â 35% yn 2012/13.
- Roedd y prif feysydd eraill y derbyniwyd cwynion yn eu cylch yn ymwneud â datgan a chofrestru budd, sef 21% o'r cwynion, ac 'uniondeb' a oedd yn cyfrif am 20% o'r cwynion.
- Caewyd 229 achos yn 2013/14. O'r 229 o gwynion hyn, daeth 176 i ben ar ôl ystyriaeth gychwynnol.
- Cwblhawyd 33 ymchwiliad, a daeth 10 ohonynt i'r casgliad nad oedd unrhyw dystiolaeth o dorri amodau. Daeth 17 i'r casgliad nad oedd angen gweithredu pellach, cafodd 5 achos eu cyfeirio at Bwyllgor Safonau a chafodd un achos ei gyfeirio at Banel Dyfarnu Cymru.
- Roedd nifer yr achosion a gyfeiriwyd at Bwyllgor Safonau neu'r Panel Dyfarnu wedi gostwng yn sylweddol o 20 yn 2012/13 i 6 yn unig yn 2013/14.
- Cadarnhaodd yr Ombwdsmon y byddai'r arfer o ysgrifennu at Swyddogion Monitro lleol yn parhau yn yr achosion hynny lle'r oedd yr Ombwdsmon o blaid peidio ag ymchwilio i gŵyn, neu ar ôl dechrau ar ymchwiliad, ei fod o blaid cau'r achos. Yn yr amgylchiadau hyn, mater i'r Swyddog Monitro lleol oedd ystyried a oedd yn arddel barn wahanol i'r Ombwdsmon o ran y tebygolrwydd y byddai'r Pwyllgor Safonau yn gosod sancsiwn. Os oedd y Swyddog Monitro o'r farn y byddai'r Pwyllgor Safonau Lleol yn gosod sancsiwn yna byddai'n bosibl iddynt drosglwyddo'r ymchwiliad i'w ystyried ar lefel lleol. Yn ystod y flwyddyn 2013/14, cyfeiriwyd 16 cwyn at y Swyddogion Monitro gan yr Ombwdsmon ond dim ond un o'r cwynion hyn a alwyd i mewn ar gyfer ymchwiliad lleol.
- Yn Sir Ddinbych derbyniwyd 4 cwyn gan yr Ombwdsmon yn ymwneud â Chynghorwyr Sir. Tynnwyd 2 gŵyn yn ôl a chaewyd y 2 arall ar ôl ystyriaeth gychwynnol.
- Derbyniwyd 9 cwyn ynglŷn â Chyngor Tref Prestatyn, ond caewyd 8 ohonynt ar ôl ystyriaeth gychwynnol ac roedd 1 gŵyn wedi'i thynnu'n ôl.

PENDERFYNWYD y dylid nodi cynnwys Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2013/14.

7 PRESENOLDEB MEWN CYFARFODYDD

Cyflwynodd aelodau'r Pwyllgor Safonau adroddiad ar eu presenoldeb mewn cyfarfodydd fel a ganlyn:-

Gweithdy Sgiliau – Dywedodd y Cynghorydd David Jones iddo fod yn bresennol, ynghyd â'r Cadeirydd, yn y Gweithdy Sgiliau, a gyflwynwyd gan Julie Wright. Roedd y Gweithdy wedi'i gyflwyno'n dda ac roedd yn llawn gwybodaeth. Argymhellwyd y dylid cynnal y digwyddiad eto yn y dyfodol ond ni fyddai Julie Wright ar gael gan ei bod ar fin ymddeol.

Roedd goblygiadau ariannol ynghlwm â chynnal y Gweithdy ond os na fyddai llawer yn dangos diddordeb yna byddai'r Gweithdy yn cael ei ganslo.

Cod Ymddygiad - Dywedodd David Jones iddo fod yn bresennol yn yr ymchwiliadau a gwrandawiadau Cod Ymddygiad lleol a gynhaliwyd yng Nghyngor Sir Ynys Môn. Y siaradwr oedd Peter Keith Lucas. Traddododd gyflwyniad da iawn a chafwyd llawer iawn o fanylion ynglŷn â gwrandawiadau a gynhaliwyd dros y ddwy flynedd ddiwethaf yng Nghymru a Lloegr.

***PENDERFYNWYD** derbyn a nodi cynnwys adroddiadau llafar yr aelodau am eu presenoldeb mewn cyfarfodydd.*

8 DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

Nododd yr aelodau fod cyfarfod nesaf y Pwyllgor Safonau wedi ei drefnu ar gyfer 10.00 a.m. ddydd Gwener 17 Hydref, 2014 yn Ystafell Gynadledda 1a, Neuadd y Sir, Rhuthun.

Dywedodd y Dirprwy Swyddog Monitro wrth yr Aelodau y byddai swyddfeydd Tŷ Nant ym Mhrestatyn yn cau. O ganlyniad, nid oedd unrhyw drefniadau i gynnal cyfarfodydd y Pwyllgor Safonau yng ngogledd y sir.

Gwahardd y wasg a'r cyhoedd

***PENDERFYNWYD** o dan Adran 100A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, y dylid gwahardd y Wasg a'r Cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn trafod yr eitem a ganlyn ar y sail y gallai gwybodaeth eithriedig gael ei datgelu, fel y'i diffinnir ym Mharagraffau 12 a 13, Rhan 4 o Atodlen 12A y Ddeddf.*

9 COD YMDYGIAD - RHAN 3 DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad cyfrinachol (a ddsbarthwyd eisoes) yn rhoi trosolwg o gwynion yn erbyn aelodau a roddwyd yng ngofal Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru er 1 Ebrill 2012.

Roedd dwy gŵyn yn mynd ymlaen ar hyn o bryd.

Yn achos y gŵyn gyntaf, derbyniwyd llythyr gan yr Ombwdsmon yn egluro mai'r cam cychwynnol yn unig oedd hwn.

Yn achos yr ail gŵyn, roeddem yn disgwyl ymateb gan yr Ombwdsmon.

Cytunodd yr Aelodau ei fod yn ddigonol i ddod ag achosion yn ymwneud â'r 12 mis diwethaf gerbron y Pwyllgor.

PENDERFYNWYD derbyn a nodi'r adroddiad.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.45 a.m.

Ar yr adeg hwn, fe roddwyd cyflwyniad i Margaret Medley i ddymuno'n dda iddi ar ei hymddeoliad o'r Pwyllgor Safonau. Dywedodd yr aelodau eu bod yn ddiolchgar iddi am ei gwaith caled dros y blynyddoedd ar ran y Pwyllgor Safonau.

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Roberts a/ac Colin Hughes

Eitem Agenda 5

CYNLLUN GWAITH I'R DYFODOL PWYLLGOR SAFONAU

Dyddiad y Cyfarfod	Eitemau / Meysydd yr Adroddiad
06/3/15	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd Cylch Gorchwyl Pwyllgor Adolygu Safonau Panel Dyfarnu ar gyfer Adroddiad Blynyddol Cymru Eitem Sefydlog: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych
22/5/15	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn Cyfarfodydd Eitem Sefydlog: Trosolwg o Gwynion yn Sir Ddinbych

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y Cyfarfod:	23 Ionawr 2015
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Ian Trigger, Cadeirydd y Pwyllgor Safonau
Awdur yr Adroddiad:	Lisa Jones - Dirprwy Swyddog Monitro
Teitl:	Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Safonau yn galluogi'r Pwyllgor llawn i gael golwg ac i gyfrannu at Adroddiad Blynyddol y Cadeirydd, cyn i'r eitem gael ei gyflwyno i'r cyngor llawn. Mae'r Swyddog Monitro yn arbennig o awyddus i gymryd i ystyriaeth safbwyntiau'r Cadeirydd a'r Pwyllgor ar y cynnwys, ac yn nodi'r manylion arfaethedig yn adran 4.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Cytunodd Aelodau'r Pwyllgor hwn y dylai Adroddiad Blynyddol gael ei gyflwyno ar waith y pwyllgor a'i ganfyddiadau ac arsylwadau, a'i gyflwyno i holl Aelodau'r Cyngor fel rhan o ymgyrch y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad moesegol a chydymffurfio â Chod Ymddygiad Aelodau.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr Aelodau yn:

- (a) Nodi cynnwys yr adroddiad
- (b) Darparu sylwadau ar y cynnwys i'r Swyddog Monitro er mwyn sicrhau ei fod yn adlewyrchu barn y Pwyllgor hwn yn gywir.
- (c) Argymhell ei gyflwyno i'r Cyngor Llawn gan y Cadeirydd.

4. Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Dyma Adroddiad Blynyddol cyntaf Cadeirydd y Pwyllgor Safonau i'r Cyngor Llawn ac mae'n cynnwys y flwyddyn galendr Ionawr-Rhagfyr 2014 yn unig. Y bwriad yw y bydd y Cadeirydd yn cyflwyno'r adroddiad ar y sail hon yn flynyddol o hyn ymlaen i'r Cyngor Llawn, er mwyn hysbysu'r Aelodau o dueddiadau; materion o ran cydymffurfio â'r Côt Ymddygiad i Aelodau yn gyffredinol ar draws y Sir, yn ogystal â gwaith y Pwyllgor i wella safonau ymddygiad ar lefel Sir ond hefyd ar lefel Tref, Dinas a Chymuned.

- 4.2 Mae'r Pwyllgor yn cynnwys y mathau canlynol o Aelodau - 2 Gyngorydd Sir, 4 Aelod Annibynnol (cyfetholedig), ac 1 Aelod o Gyngor Cymuned (nad yw'n Aelod sy'n gwisgo dwy het). Felly, nid yw'r rhan fwyaf o'r Aelodau'n cael eu hethol, ond yn cael eu recriwtio gan aelodau o'r cyhoedd yn unol â gofynion y ddeddfwriaeth Safonau yng Nghymru. Hefyd mae'n rhaid i'r Pwyllgor fod yn gworwm lle mae o leiaf hanner yr Aelodau sy'n bresennol yn unigolion annibynnol.

Mae aelodau annibynnol yn cael eu recriwtio drwy hysbyseb gyhoeddus, sy'n agored i bawb ar wahân i feini prawf llym o ran bod yn Swyddog neu Aelod o'r Cyngor o'r blaen o fewn ffrâm amser penodol, bod ag enw da ac yn meddu ar nodweddion penodol fel y nodir yn y ddeddfwriaeth. Ar wahân i hynny mae'r cyfle hwn yn agored i bobl o bob cefndir, er mwyn gallu cynrychioli barn y cyhoedd o ran y safonau y maent yn ei ddisgwyl o'u haelodau etholedig; ac a fydd hefyd wedyn os disgwylir iddynt wneud hynny, yn eistedd mewn beirniadaeth o ran cyfeiriadau at y Pwyllgor gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, lle mae'r Cod Ymddygiad wedi cael ei dorri, sy'n disgyn uwchben y trothwy perthnasol. Mae'r penderfyniad i ymchwilio i'r achos o dorri'r cod, yn ôl disgresiwn yr Ombwdsmon; yn seiliedig ar y ffeithiau, tystiolaeth a natur y toriad ac a oes tystiolaeth ategol ai peidio, ond hefyd erbyn hyn os oes budd i'r cyhoedd o ddi-hysbyddu amser ac adnoddau ariannol y cyhoedd yn yr ymchwiliad a'r gwrandawriad ei hun; yn debyg i ymagwedd Gwasanaeth Erlynwyr y Goron (CPS) at daliadau ac erlyniadau.

Bydd y Pwyllgor sy'n derbyn geirda gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn dilyn ei ymchwiliad i gŵyn, yna'n eistedd mewn cymhwysedd lled-farnwrol tra eu bod yn gwrando ar yr achos. Mae ganddynt bwerau i atal Aelod o'r Swyddfa am uchafswm o 6 mis, ac yn ystod y cyfnod hynny ni fyddant yn gallu gweithredu yn rhinwedd eu swydd fel aelod etholedig ac ni fyddant yn derbyn unrhyw gyflog am fod yn aelod. Mae gan y Pwyllgor y disgresiwn i osod sancsiynau llai megis gwaharddiad rhannol o ddyletswyddau neu 'gerydd cyhoeddus' ac i osod amodau eraill fel presenoldeb mewn hyfforddiant.

- 4.3 Cyn 2014 mae'r Pwyllgor wedi bod yn allweddol yn y Cyngor wrth ddiwygio ei God Ymddygiad i wneud hyfforddiant ar y Cod yn rwymedigaeth orfodol; sef cyflwyno Protocol Hunan Reoleiddio, gan sicrhau bod hyfforddiant ar draws y Sir a digwyddiadau sioe deithiol y 'Cod' yn cael eu darparu gan y Swyddog Monitro a'i ddirprwy ar lefel Tref, Dinas a Chymuned, gan ddarparu hyfforddiant i Gadeiryddion Cynghorau Tref, Dinas a Chymuned a deunyddiau cyhoedduswydd i gynorthwyo Clercod yn eu cymunedau.

- 4.4 Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf fe drefnodd y Pwyllgor i gyfarfod bum gwaith gan gwrdd ar 4 achlysur gan fod cyfarfod mis Hydref wedi'i ganslo. Mae'r tabl isod yn nodi crynodeb o'r eitemau dan drafodaeth: -

Dyddiad y Cyfarfod	Eitemau / Meysydd yr Adroddiad
31/1/14	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd Cofrestru Cysylltiadau Aelodau ar-lein Eitem Sefydlog: trosolwg o gwynion yn Sir Ddinbych yn erbyn Aelodau
21/3/14	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd Adroddiad Blynyddol Panel Dyfarnu Cymru Llyfr achos Cod Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Eitem Sefydlog: trosolwg o gwynion yn Sir Ddinbych yn erbyn Aelodau
9/5/14	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd Protocol Cyfryngau Cymdeithasol Datganiadau Cysylltiad gan aelodau'r Cyngor Sir (adolygiad sampl gan y Swyddog Monitro) Eitem Sefydlog: trosolwg o gwynion yn Sir Ddinbych yn erbyn Aelodau
18/ 7/14	Eitem Sefydlog: Presenoldeb mewn cyfarfodydd Mabwysiadu Rhaglen Waith i'r Dyfodol Adroddiad Blynyddol Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru Eitem Sefydlog: Trosolwg o Gwynion yn erbyn Aelodau.
17/ 10/ 14	Cyfarfod wedi'i ganslo.

4.5 Eitemau Sefydlog

Erbyn hyn mae'r Pwyllgor yn derbyn 3 eitem sefydlog: -

- (a) Adroddiadau gan Aelodau Safonau o ran eu presenoldeb a'u sylwadau yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a'r Cyngor boed ar lefel Sir neu Gymuned. Pwyllgor Safonau Cyngor Sir Ddinbych yn eithaf unigryw yn ei ymagwedd ragweithiol tuag at godi safonau ac ymwybyddiaeth o'r Cod Ymddygiad. Bydd Aelodau'r Pwyllgor yna'n adrodd yn ôl i'r Pwyllgor a fydd yn gwneud argymhellion mewn perthynas ag unrhyw anghenion hyfforddi neu dueddiadau neu batrymau ymddygiad mewn cymunedau penodol.
- (b) Trosolwg o Gwynion a gyflwynwyd yn erbyn Aelodau gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Mae'r adroddiad yn cael ei gyflwyno mewn sesiwn gaeedig ac mae aelodau yn derbyn swm cyfyngedig o fanylion mewn perthynas â'r gŵyn ond gyda digon o fanylion i alluogi aelodau i ystyried a oes modd argymhell hyfforddiant neu unrhyw gamau eraill i

gynghorau tref, dinas neu gymuned penodol sy'n cael trafferthion neu lle mae cynnydd yn nifer y cwynion.

(c) Rhaglen Waith i'r Dyfodol: Mae hon yn fenter newydd er mwyn i'r pwyllgor allu mabwysiadu'r un ymagwedd strategol â Phwyllgorau eraill ac i dargedu ei adnoddau yn feysydd blaenoriaeth.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd Pwyllgor Safonau gwbl weithredol a chynrychioliadol sy'n cynnal y safonau uchel a ddisgwylir gan Aelodau yn cynorthwyo i ategu at weithredu swyddogaethau democrataidd y Cyngor.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw oblygiadau i wasanaethau eraill o ganlyniad i'r adroddiad hwn.

7. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd?

Nid oes unrhyw ymgynghoriadau wedi'u cynnal ar wahân i'r adroddiad hwn i'r Pwyllgor Safonau, sy'n gweithredu fel ymgynghorai i roi adborth ar ei briodoldeb, cynnwys ac argymhellion.

8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Ddim ei angen.

9. Pa risgiau sydd yna, ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risgiau wedi'u nodi.

10. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000; Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) 2001 a Rheoliadau Pwyllgor Safonau (Cymru) (Diwygiad) 2006.

Adroddiad i'r: Pwyllgor Safonau

Dyddiad y Cyfarfod: 23 Ionawr 2015

Aelod/Swyddog Arweiniol: Gary Williams, Swyddog Monitro

Awdur yr Adroddiad: Gary Williams, Swyddog Monitro

Teitl: Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru –
Prawf Lles y Cyhoedd

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Y cynnig gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru '(yr Ombwdsmon) i gyflwyno Prawf Lles y Cyhoedd newydd wrth ystyried a ddylid ymchwilio i honiadau bod aelod etholedig wedi torri'r Cod Ymddygiad.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.2 Gofyn am farn yr Aelodau ar y cynnig i gyflwyno Prawf Lles y Cyhoedd fel y nodir yn y papur a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.3 Bod aelodau'r Pwyllgor yn rhoi eu barn ar y cynnig i gyflwyno Prawf Lles y Cyhoedd fel y nodir yn y papur a dderbyniwyd gan yr Ombwdsmon ynghlwm fel Atodiad 1 i'r adroddiad hwn.

4. Manylion yr Adroddiad

4.1 Mae'r Ombwdsmon wedi cynhyrchu papur trafod, copi ohono ynghlwm wrth yr adroddiad hwn fel Atodiad 1, ar gynnig ei fod yn cyflwyno prawf ychwanegol wrth ystyried a ddylid ymchwilio i gŵyn a wnaed iddo fod aelod wedi torri'r Cod Ymddygiad.

4.2 Mae swyddfa'r Ombwdsmon ers nifer o flynyddoedd wedi cymhwyso prawf dau gam wrth ystyried a ddylid ymchwilio i doriad honedig Cod Ymddygiad gan aelod.

4.3 Y cam cyntaf yw sefydlu a oes tystiolaeth bod torri'r Cod wedi digwydd mewn gwirionedd.

4.4 Yr ail gam yw ystyried a fyddai'r toriad honedig, os profir, yn debygol o arwain at osod sancsiwn gan Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu Cymru. Wrth ystyried y tebygolrwydd o sancsiwn yn cael ei osod, mae swyddfa'r Ombwdsmon yn

ystyried yr achosion sydd wedi cael eu hystyried gan Bwyllgorau Safonau ledled Cymru a'r camau mae'r pwyllgorau hynny wedi eu cymryd.

- 4.5 Mae'r Ombwdsmon yn pryderu am nifer y cwynion lefel isel a dderbyniwyd gan ei swyddfa ac mae'n ceisio cyflwyno prawf ychwanegol a fyddai'n ystyried a oes angen ymchwiliad neu atgyfeiriad at Bwyllgor Safonau neu Banel Dyfarnu er budd y cyhoedd.
- 4.6 Mae'r Ombwdsmon yn ei gwneud yn glir yn y papur ynghlwm fel Atodiad 1 ei fod yn gweld ei rôl fel ymchwilio i achosion difrifol er mwyn cynnal hyder y cyhoedd mewn safonau mewn bywyd cyhoeddus. Ni fydd yn agor ymchwiliad oni bai ei fod o'r farn ei bod yn gymesur i wneud hynny, o ystyried amgylchiadau'r tor-rheol honedig.
- 4.7 Wrth benderfynu a yw ymchwiliad er lles y cyhoedd, bydd yr Ombwdsmon yn ystyried nifer o ffactorau sy'n cael eu nodi yn Atodiad 1. Ni fydd pob un o'r ffactorau hyn yn berthnasol ym mhob achos a'r pwysau a roddir i bob un yn dibynnu ar amgylchiadau pob achos.
- 4.8 Mewn ymweliad diweddar â Fforwm Safonau Gogledd Cymru, sy'n destun adroddiad ar wahân, roedd yr Ombwdsmon yn ei gwneud yn glir mewn cyfnod o lai o adnoddau y byddai'n rhaid iddo flaenoriaethu'r materion y byddai ei swyddfa yn ymchwilio, ac mae'n bosibl na fydd yn briodol mwyach i ddefnyddio adnoddau ar gyfer ymchwilio i gwynion lefel isel.
- 4.9 Yn ogystal, mae'r Ombwdsmon yn ystyried a ddylid parhau â'r arfer o gyfeirio'r achosion hynny, er y gall fod tystiolaeth o dorri amod ei fod wedi penderfynu peidio ag ymchwilio, i swyddogion monitro lleol ar gyfer ymchwilio oherwydd ail gymal ei brawf presennol. Gofynnir am farn yr aelodau ar y pwynt hwn hefyd..

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

- 5.1 Nid oes gan yr adroddiad effaith uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

- 6.1 Nid oes costau uniongyrchol yn gysylltiedig â'r adroddiad.

7. Beth yw'r prif gasgliadau o'r Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylid atodi Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gwblhau fel atodiad i'r adroddiad hwn.

- 7.1 Nid yw'r adroddiad hwn angen asesiad o'r effaith ar gydraddoldeb.

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gydag Archwilio ac eraill?

- 8.1 Ni adroddwyd nac ymgynghorwyd ar y mater hwn yn unman arall.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes costau uniongyrchol yn deillio o'r adroddiad hwn.

10. Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae perygl os bydd Prawf Lles y Cyhoedd yr Ombwdsmon yn cael ei gymhwyso ar lefel trothwy rhy uchel y gallai fod posibilrwydd o dorri'r Cod Ymddygiad a ddylai fod yn destun sanctiwn heb gael ei ymchwilio.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Erthygl 9.2 Cyfansoddiad y Cyngor

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Canllawiau ar y Cod Ymddygiad ar gyfer Aelodau Awdurdodau Lleol Prawf Lles y Cyhoedd

1) Tra bod y prosesau datrys yn lleol o fewn cynghorau sir neu fwrdeistref sirol yn ymddangos wedi cael yr effaith o ddatrys llawer o'r cwynion cod ymddygiad aelodau yn erbyn cwynion aelodau lefel isel o fewn y cyrff hynny, mae'r Ombwdsman yn parhau i fod yn bryderus am nifer y cwynion gwamal, dibwys a blinderus sy'n cael eu derbyn gan aelodau cynghorau cymuned a thref. Cynigir ein bod yn cyflwyno prawf lles y cyhoedd pellach wrth benderfynu a ddylid ymchwilio i gŵyn neu a ddylid parhau ymchwiliad i dorri'r Cod i'r cam o gyfeirio'r mater at Banel Dyfarnu Cymru.

